



## Parc Cenedlaethol Eryri

### Strategaeth Coed a Choetiroedd

#### 1. Cyd-destun

Mae astudiaeth ddiweddar a gynhaliwyd i asesu ôl troed carbon holl Barciau Cenedlaethol y DU wedi amlygu bod angen cynllun lleihau a dal a storio (atafaelu) carbon yn lleol. Fel rhan o'r ymateb i'r adroddiad hwn sydd i'w gyhoeddi'n fuan, roedd Parc Cenedlaethol Eryri eisiau cynhyrchu Strategaeth Coed a Choetiroedd. Wrth i ddi-ddordeb gynyddu mewn caffael tir ar gyfer plannu coed, atafaelu carbon, a masnachu carbon, mae ymwybyddiaeth gynyddol ymhlith cymunedau a'r Awdurdod o'r newidiadau posibl sydd o'n blaenau. Mae'n hanfodol bod yr Awdurdod fod yn barod i wynebu'r heriau hyn a darparu arweiniad ar y camau gweithredu priodol, y lleoliadau a dwysedd mentrau plannu coed.

Mae Parc Cenedlaethol Eryri a Coed Cadw wedi dechrau proses dau gam i ddatblygu Strategaeth Coed a Choetiroedd a fydd yn darparu gweledigaeth gyffredinol ac arweiniad angenrheidiol i gymunedau a rhanddeiliaid eraill ynghylch math a graddfa mentrau plannu coed.

#### 2. Angen

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn deall yr angen i gydbwysu nodau lleihau carbon a chadwraeth amgylcheddol gyda nodweddion unigryw ac anghenion y cymunedau lleol. Trwy fod yn rhagweithiol ac yn unedig gyda'r cymunedau, mae'r Awdurdod yn anelu at sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol yn cyd-fynd â'r weledigaeth gyffredinol ar gyfer Eryri, gan ystyried agweddau ecolegol, cymdeithasol a diwylliannol y rhanbarth.

Mae'n debygol y bydd rhyddhau'r astudiaeth ôl troed carbon yn arwain at fwy o sylw a thrafodaethau ynghylch dal a storio carbon a masnachu yn Eryri. Fel ceidwad y Parc Cenedlaethol, mae'r Awdurdod wedi ymrwmo i ddarparu cyngor ac arweiniad gwerthfawr i gymunedau lleol a rhanddeiliaid. Bydd hyn yn galluogi i benderfyniadau gwybodus gael eu gwneud ynghylch math a graddfa mentrau plannu coed, gan sicrhau eu bod yn cyfrannu'n gadarnhaol at nodau hinsawdd a chymeriad a lles unigryw ar gyfer Eryri a'i thrigolion.

#### 3. Cyd-ddylunio

Mae cyd-ddylunio yn ddull cydweithredol sy'n cynnwys ymgysylltu'n weithredol â rhanddeiliaid yn y broses o ddyllunio a datblygu cynnyrch, gwasanaeth neu strategaeth. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd cynnwys defnyddwyr terfynol, cwsmeriaid, neu aelodau o'r gymuned yn y broses o wneud penderfyniadau er mwyn sicrhau bod y canlyniad terfynol yn diwallu eu hanghenion a'u dewisiadau.

Mae mabwysiadu ymagwedd o gyd-ddylunio wrth ddatblygu Strategaeth Coed a Choetiroedd yn cynnig nifer o fanteision gan gynnwys – deall gwahanol safbwyntiau ar y mater, ymgorffori gwybodaeth leol ac arbenigedd i unrhyw benderfyniadau, meithrin ymdeimlad o berchnogaeth a chyfrifoldeb ymhlith y rhai sy'n gysylltiedig, gwella tryloywder ac atebolrwydd ynghylch pwy sy'n gwneud y penderfyniadau a pham, a hyrwyddo cydweithredu a rhannu adnoddau ar gyfer gweithredu unrhyw gynllun yn y pen draw.

Trwy gynnwys rhanddeiliaid o gefndiroedd gwahanol ac ystyried eu mewnbwn, nod y Strategaeth Coed a Choetiroedd yw bod yn gynhwysfawr, effeithiol a chynaliadwy wrth reoli coed a choetiroedd yn y parc cenedlaethol.

#### 4. Camau nesaf

<b>Llinell Amser</b>	<b>Gweithred</b>
Gorffennaf – Medi 2023	Casglu adborth gan bobl sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â PCE ynghylch eu barn am strategaeth coed a choetiroedd.
Medi – Hydref 2023	Tîm prosiect (gan gynnwys rhanddeiliaid) i ddadansoddi ymatebion a data a drafftio strategaeth coed a choetiroedd
Tachwedd – Rhagfyr 2023	Adroddiad drafft i'w ddosbarthu i'r holl randdeiliaid a'i ddiwygio yn unol â hynny
Ionawr – Chwefror 2024	Strategaeth Coed a Choetiroedd PCE wedi'i chwblhau a'i chyflwyno/cyhoeddi
Chwefror 2023 ymlaen	Cynllun gweithredu ar gyfer y strategaeth wrthi'n cael ei datblygu a dechrau chwilio am gyllid i'w chyflawni.

#### 5. Deunydd darllen pellach

Mae llawer o barciau cenedlaethol a rhanbarthau yn y DU eisoes wedi datblygu Strategaethau Coed a Choetiroedd, dyma rai enghreifftiau o arferion gorau i helpu i lywio'r hyn sy'n digwydd ym Mharc Cenedlaethol Eryri:

Loch Lomond a'r Trossachs [Trees and Woodland Strategy - Here. Now. All of us. -Loch Lomond & The Trossachs National Park \(lochlomond-trossachs.org\)](https://www.lochlomond-trossachs.org/)

Cynllun Rheoli Eryri [Cynllun Eryri Awdurdod y Parc \(llyw.cymru \)](https://www.cymru.gov.uk/)

[Cyflwyniad PowerPoint](#) Wreccsam (apse.org.uk)

**Helpwch ni i gasglu mewnwelediad gwerthfawr trwy lenwi'r holiadur a'i rannu gyda'ch cysylltiadau.**

Linc at yr holiadur ..... <https://forms.office.com/e/dYAcgdCQ3L>